

Polisi ffioedd ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Cyflwyniad

Wrth gyflawni ei swyddogaethau i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), ac wedi hynny, monitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig â'r meini prawf, mae CGA yn ceisio sicrhau bod rhaglenni AGA yn broffesiynol yn briodol, heriol a bod athrawon dan hyfforddiant yn bodloni'r safonau statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Gorchymyn 2017), yn galluogi CGA i godi ffi ar bartneriaeth i asesu ei rhaglen; ni chaiff y ffioedd a godir gan CGA fod yn fwy na chost darparu'r gwasanaeth.

Ym 2018, cynhaliodd CGA ymgynghoriad ar y ffioedd arfaethedig, ac o ganlyniad, mabwysiadwyd y model a ffafriwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a'r model y mae CGA yn ei ystyried sydd decaf. Rydym wedi cadw'r model adennill costau rhannol ond wedi cynnal adolygiad sy'n cyd-fynd â'r adolygiad ehangach o'r dogfennau achredu. Crynhoir y diwygiadau a'r rhesymeg am y rhain isod.

Diwygiadau

Yn flaenorol, codwyd tâl safonol o £7,400 fesul rhaglen am achredu. I bartneriaethau sydd â sawl rhaglen, gallai hyn olygu costau sylweddol (h.y. tair rhaglen am gost of £22,200). Yn ogystal â hynny, nid yw'r gwaith sy'n gysylltiedig ag achredu rhaglenni newydd yn llinol, ac mae llawer o'r gweithgarwch yn cael ei ailadrodd (er enghraifft, strwythurau arwain a rheoli neu lywodraethu). Cymhwysir felly un gyfradd safonol o £11,500 ar gyfer pob gweithgaredd achredu, am hyd at dair rhaglen.

Dylanwadir ailachrediad gan fonitro, arolygaeth a data perfformiad eraill. Rhagwelir y bydd hyn yn ysgafnach nag achrediad llawn. O'r herwydd, mae'r broses o ailachredu rhaglenni (a fyddai wedi bod yn unol â chost achredu o £7,400 y rhaglen yn flaenorol), wedi'i ddiwygio'n is i £7,500 ar gyfer hyd at dair rhaglen.

Yn ystod y gylchres gyntaf o fonitro, defnyddiwyd y ffi a osodwyd ym 2018, yn bennaf ar gyfer y broses monitro amodau, sef £875 am hanner diwrnod neu £1,400 am ddiwrnod llawn. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymweliad monitro deuddydd wedi'u diwygio i adlewyrchu natur yr adolygiad o ddogfennaeth a thystiolaeth sy'n digwydd fel rhan o'r ymweliad, ac nid y cyswllt uniongyrchol yn unig. Bydd monitro felly'n codi i £7,500, eto, mae hyn yn cael ei gymhwyso fel cyfradd safonol ar gyfer hyd at dair rhaglen.

Wedi'u gosod fel £1,700 yn flaenorol, mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno newidiadau sylweddol i raglen achrededig wedi'u diwygio i £1,000 i adlewyrchu'r gweithgarwch dan sylw yn well.

Bydd costau monitro amodau, achos pryder a phrosesau tynnu'n ôl yn dibynnu ar natur a graddfa'r gweithgaredd sydd ei angen ar gyfer pob rhaglen. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r partneriaethau yn ystod gweithrediad y prosesau hynny. Mae mân ddiwygiadau wedi'u cymhwyso i gyfraddau dydd, a osodwyd yn flaenorol fel £875 am hanner diwrnod a £1,400 am ddiwrnod llawn, bellach wedi'u gosod fel £900 a £1,800 yn y drefn honno, i adlewyrchu pwysau chwyddiant ar gostau.

Mae tybiaethau'r costau a gymhwysir i'r polisi ffioedd yn golygu y bydd yr holl weithgareddau monitro ac achredu yn cael eu cyflawni wyneb yn wyneb, oni bai y cytunir arnynt gan CGA a'r bartneriaeth. Felly, bydd CGA yn gofyn am y ffi ar gyfer monitro neu achredu rhaglenni AGA newydd a phresennol unwaith y bydd digwyddiad achredu wedi'i drefnu.

Ar gyfer pob partneriaeth yng Nghymru, bydd y model diwygiedig yn golygu, fel arfer, y bydd costau achredu a monitro yn cynrychioli gostyngiad yn erbyn y polisi ffioedd blaenorol.

Amserlen ffioedd

Cyfrifwyd y ffioedd isod ar sail model adfer costau rhannol i sicrhau nad yw ffioedd achredu'n fwy na chost darparu'r gwasanaeth.

Ystyriwyd costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â digwyddiad achredu ac maent yn cynnwys:

- cyfraddau dyddiol ar gyfer cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor (amser darllen, digwyddiad achredu ac ysgrifennu adroddiad)
- cyfraddau dyddiol ar gyfer swyddogion CGA (digwyddiad achredu yn unig)
- costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cadeirydd y pwyllgor, aelodau'r pwyllgor a swyddogion CGA (lle bo'n berthnasol)
- lluniaeth yn ystod y digwyddiad achredu

Pan nodir costau ychwanegol, trafodir y rhain gyda phartneriaethau ymlaen llaw, a gellir addasu ffioedd yn unol â hynny.

Rhestr ffioedd

Cais am achrediad (rhaglen AGA newydd), ar gyfer hyd at dair rhaglen **£11,500**

Bydd CGA yn gofyn am daliad ar ôl derbyn cais, ac wedi i ddigwyddiad achredu gael ei drefnu.

Cais am ailachrediad (rhaglen AGA sy'n bodoli eisoes), ar gyfer hyd at dair rhaglen **£7,500**

Bydd CGA yn gofyn am daliad ar ôl derbyn cais ac wedi i ddigwyddiad achredu gael ei drefnu.

Monitro cydymffurfiaeth â'r meini prawf, ar gyfer hyd at dair rhaglen £7,500

Bydd CGA yn gofyn am daliad wedi i ddigwyddiad achredu gael ei drefnu.

Adolygu newidiadau mawr arfaethedig i raglen AGA achrededig £1,000

Bydd CGA yn gofyn am daliad ar ôl cael cadarnhad fod angen adolygiad interim.

Monitro amodau, achos o bryder a phroses tynnu'n ôl o achrediad Hanner diwrnod £900

Pennir y costau yn ôl hyd y gweithgareddau sydd eu hangen. Bydd hyn yn dibynnu, er enghraifft, ar nifer y rhaglenni, nifer yr amodau, natur a nifer y materion o ddiffyg cydymffurfio ac ati.

Bydd CGA yn gofyn am daliad pan fydd ymweliad monitro wedi'i drefnu.

Diwrnod llawn £1,800

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.*